## Neges y Gân i'r Dychweledigion

**Darllen Llyfr y Datguddiad 5:11–12**

Defnyddiodd Ioan yn ei weledigaeth yr hyn a geir yn Llyfr Cyntaf Cronicl 29:11–12. Dafydd, y perganiedydd, yn torri allan mewn gorfoledd. Moliannwch yr Arglwydd. Ond beth sydd gan yr henuriaid, yr angylion a'r holl greaduriaid i ganu amdano? Yn gyntaf, gallu Iesu i achub, arbed ac adeiladu. Cofiwch eiriau Paul wrth y disgyblion yn Corinth:

'Eithr nyni ydym yn pregethu Crist wedi ei groeshoelio, i'r Iddewon yn dramgwydd, ac i'r Groegwyr yn ffolineb; ond iddynt hwy y rhai a alwyd, Iddewon a Groegwyr, yn Grist gallu Duw, a doethineb Duw' (1 Corinthiaid 1:23–24).

Y mae gallu Duw yn Iesu. Yn ail, mae gan Grist gyfoeth dihysbydd. Cofiwn eto eiriau Paul, y tro hwn wrth yr Eglwys yn Effesus:

'I mi, y llai na'r lleiaf o'r holl saint, y rhoddwyd y gras hwn, i efengylu ymysg y Cenhedloedd anchwiliadwy olud Crist' (Effesiaid 3:8). Gan Iesu y mae'r anchwiliadwy olud, fel y sonia'r emynwyr Calfinaidd fel Ann Griffiths a Phantycelyn.

Yn drydydd, mae Iesu'n datgloi cyfoeth Duw. Un o roddion Duw i Grist yw'r gallu i ddeall meddwl yr Anfeidrol a'i ddehongli i ni feidrolion. Galwyd y llenor Laurence der van Post yn Arise Man of Our Time ar raglen deledu. Dylem ni oll fod felly.

Yn bedwerydd, cofiwn am gadernid y Crist. Ef yw'r cadarn Un a orchfygodd angau a phechod a thywyllwch.

Iddo ef, yn bumed, y mae'r anrhydedd a hefyd, yn chweched, y Gogoniant.

'Y clod, y mawl, y parch a'r bri
fo byth i enw'n Harglwydd ni.'

Ac yn olaf, y Fendith. Dyma'r uchafbwynt. Mawr yw ein bendithion o law Duw a'i Fab Iesu. Dyna pam fod y gân orfoleddus i'w chlywed, cân y waredigaeth a chân o Ddiolchgarwch. Dyna'r fraint a gawn ger bron Prynwr y Byd, sef diolch iddo am ein cofio.

'Ffyddlon ydyw, llawn tosturi,
haeddai gael ei foli'n fwy.'

Dalied ei ddisgyblion i'w foliannu am ei roddion helaeth.

***D. Ben Rees***